

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 7 Medi, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorwyr: J. Aviet, G.M. Ball, I. Buckley, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, M.G.J. Morgan ac S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro) a G. Doyle, D. Dutch a H. Smith (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor Tenantiaid / Panel); Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd) ac Y Cynghorydd S. Campbell; a V. John (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel);

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022/23 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Nodi Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol a phrosesau, cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig i alluogi'r Cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Roedd y Pwyllgor Craffu, yn unol ag Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wedi goruchwylio'r Calendr Perfformiad Blynyddol ac mae ei farn yn llywio dull y Cyngor o fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

EITEM AGENDA 5. CAU CYFRIFON REFENIW 2021/22 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) BOD yr adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd yn cael eu nodi.
- (2) NODI cyllideb ddiwygiedig Derfynol 2021/22 fel y'i dangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 sy'n adlewyrchu cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22.

EITEM AGENDA 6. CAU CYFRIFON CYFALAF 2021/22 (CAT) –

ARGYMHELLWYD – NODI'R sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2022/23 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) Y DYLLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.